# Arwain sesiwn ganu

## Rhai awgrymiadau defnyddiol

### Canmol

Dylai canu fod yn weithgaredd y gall pawb gymryd rhan ynddo ac wrth arwain sesiwn ganu dylid gwerthfawrogi pob aelod o'r grŵp waeth beth fo'i dalent/allu naturiol. Dylid rhoi sylw i bob unigolyn. Mae'n hanfodol canmol cantorion da a brwdfrydig ond peidiwch â dangos unrhyw ffafriaeth tuag at unigolion cryf.

### Rheoli

Dechreuwch bob sesiwn ganu gyda chyfarchiad cadarnhaol a thrwy sefydlu disgwyliadau clir. Os ydych yn dechrau sesiwn ganu gyda grŵp newydd o ddysgwyr nad ydynt yn eich adnabod, sefydlwch y naws bob tro drwy bennu rheolau sylfaenol cyn dechrau.

### Trefnu

Defnyddiwch nifer o strategaethau i rannu'r dysgwyr yn grwpiau, er enghraifft, hoff liw/tîm pêl droed/oedran/mis eu pen-blwydd. Arbrofwch drwy gymysgu bechgyn a merched. Mae rhywfaint o gystadlu rhwng bechgyn a merched yn beth iach, ond peidiwch â gorbwysleisio hyn, gallai arwain at ganlyniadau negyddol. Bydd maint y grwpiau'n amrywio bob tro'n unol â natur y gân.

### Lle

Mae'n hanfodol cael man agored i ganu; fodd bynnag nid yw hyn bob amser yn bosibl nac yn ymarferol. Yr hyn sydd bwysicaf yw manteisio i'r eithaf ar y lle sydd ar gael a rhoi cyfle i ddysgwyr sefyll neu eistedd yn dibynnu ar natur y dasg/gweithgaredd.

### Adnoddau

Yn ogystal ag ystyried sut i fanteisio i'r eithaf ar y lle sydd ar gael, bydd angen i chi hefyd ystyried lleoliad yr eitemau canlynol:

- offerynnau
- cyfarpar sain
- cyfrifiadur.

Os oes modd, dylech amrywio'ch sesiwn ganu er mwyn cynnig cyfleoedd i ganu gydag offerynnau, gyda thraciau sain ac yn ddigyfeiliant.

### Sut i wneud defnydd effeithiol o oedolion eraill

Yn ystod sesiynau canu efallai y bydd staff ac oedolion eraill yn eich cefnogi. Y prif nod yw manteisio i'r eithaf ar y cymorth sydd ar gael.

Ar gyfer manylion fwy manwl ar sut i arwain sesiwn ganu ewch i Rhan 3 (tud 24 – 30) *Arweinlyfr CânSing*.

Hawlfraint © ContinYou 2011